# PROSIECT
# PORFA CYMRU

2021




Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

# CYFLWYNIAD

**Mae Prosiect Porfa Cymru'n darparu gwybodaeth reolaidd ynglŷn â chyfraddau twf ac ansawdd porfa ar lefel ranbarthol i alluogi ffermwyr da byw i wneud penderfyniadau deallus a rhagweithiol yn ymwneud a rheoli'r borfa. Mae'r prosiect yn cynnwys 19 fferm laeth a 29 fferm bîff a/neu ddefaid sy'n mesur eu porfeydd ac yn darparu adborth am dueddiadau twf.**

Gyda glawiad dibynadwy Cymru, y borfa yw ein "mantais fasnachol" yn y farchnad leol a byd-eang ar gyfer llaeth a chig coch. Dyma'r ffynhonnell fwyaf cynaliadwy o borthiant ar gyfer ein da byw ac, o'i rheoli'n dda, dyma'r ffynhonnell fwyaf proffidiol o lawer.

Nodau'r prosiect hwn yw:

- Casglu data dibynadwy i gynhyrchu cromliniau twf porfa rhanbarthol i gynorthwyo cynlluniau rheoli pori ar y fferm
- Cofnodi cyfraddau twf porfeydd rhanbarthol a'u rhannu gyda holl aelodau Cyswllt Ffermio
- Deall effaith y tywydd ar gynhyrchu porfa
- Deall effaith rheoli ar gynhyrchu porfa
- Cynorthwyo, rhannu a datblygu adnoddau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ymwneud â rheoli pori



# DULL

**Wedi'i lunio i ddarparu canlyniadau rheolaidd, dibynadwy a pherthnasol ar gyfer pob rhanbarth.**

### Ffermydd sy'n monitro

Rhannwyd Cymru yn wyth rhanbarth i ddarparu cynrychiolaeth gytbwys o'r math o bridd a'r dosbarth tir.

Dewiswyd o leiaf 2 ffermwr llaeth a 3 ffermwr bîff a/neu ddefaid o bob rhanbarth, gan gynrychioli'r mentrau da byw a'r mathau o dir pori nodweddiadol.

Mae'r map yn dangos y gwahanol ranbarthau o fewn y prosiect, gyda phob fferm fonitro wedi'i marcio ym mhob rhanbarth.



# MESUR Y BORFA

Defnyddiodd pob ffermwr fesurydd plât codi a oedd yn cael ei raddnodi ac yn cynnwys plât plastig er mwyn sicrhau cysondeb.

Defnyddiwyd hafaliad safonol y diwydiant yn y DU ar gyfer deunydd sych, sef:

Gorchudd (kgDM/ha) = 125x + 640

(x = uchder tir pori cywasgedig mewn 0.5cm)





**TECHNEG MESUR**

Mesurwyd pob cae neu badog trwy osod y mesurydd o leiaf 30 gwaith ar bellter cyfartal ar draws y cae mewn siâp “W” neu ar letraws.
Dilynodd y ffermwr yr un llwybr ar gyfer pob mesuriad.



**AMLDER Y MESURIADAU**

Bu ffermwyr llaeth yn mesur eu llwyfan bori bob wythnos.
Bu ffermwyr bîff a/neu ddefaid yn mesur o leiaf 20 hectar (ha) fesul pythefnos.



**COFNODI GORCHUDD**

Bu’r ffermwyr yn cofnodi eu mesuriadau gorchudd glaswellt ar feddalwedd rheoli porfa Agrinet.
Yna, buont yn cofnodi unrhyw achosion o bori neu silwair.
Cofnodwyd nifer, pwysau a galw (am borfa) y da byw a oedd yn pori’r ardal.
Cofnodwyd unrhyw dail neu wrtaith nitrogen a wasgarwyd.

# FFERMWYR ARBENIGOL

Fel rhan o’r prosiect, mae pedwar rheolwr porfa arbenigol wedi bod yn rhoi cipolwg o’u systemau a’u prosesau gwneud penderfyniadau amserol dros y flwyddyn ddiwethaf.
Gallwch ddod o hyd i amrywiaeth o ddeunyddiau o bodlediadau i fideos byr gan y ffermwyr arbenigol ar wefan Cyswllt Ffermio.



**Ianto Parri**
Gwynedd
Ffermwr bîff a defaid



**Rhys Williams**
Gwynedd
Ffermwr llaeth



**Bleddyn Davies**
Ceredigion
Ffermwr defaid



**Andrew Giles**
Powys
Ffermwr llaeth

# CROMLIN DWF

**Mae'r graff isod yn dangos y cyfraddau twf glaswellt cyfartalog drwy gydol y flwyddyn ar ffermydd llaeth a bîff a/neu ddefaid.**

Mae 2021 wedi bod yn flwyddyn heriol o ran rheoli glaswellt. Cafwyd dechrau oer ac araf i'r tymor pori ym mis Ebrill a Mai, a arweiniodd at brinder bwyd ar amser allweddol o'r flwyddyn ar nifer o ffermydd. Dilynwyd hyn gan gynnydd sylweddol mewn cyfraddau twf ym mis Mehefin, gyda llawer o ffermydd yn ei chael hi'n anodd cynnal ansawdd.

Mae glawiad lleol yn ystod misoedd yr haf wedi golygu bod cyfraddau twf glaswellt wedi amrywio'n sylweddol, gyda rhai ffermydd yn cario gwarged drwy'r haf ac eraill yn gorfod rhoi porthiant ychwanegol i'r stoc yn ystod y cyfnod sych.

Daeth diwedd yr haf â glawiad a thymheredd da i'r mwyafrif, gan ganiatáu i orchuddion porfa adeiladu a gosod ffermwyr mewn sefyllfa dda ar gyfer cyfnod pori yr Hydref.

Trwy fesur glaswellt yn rheolaidd a deall y galw ar ffermydd, gellir gwneud penderfyniadau rhagweithiol ynglŷn â rheoli'r borfa er mwyn sicrhau cyfaint ac ansawdd y glaswellt a dyfir ar y fferm, gan olygu felly bod stoc yn perfformio ar eu gorau gyda'r costau isaf posibl. Y twf cyfartalog yn ystod y prif dymor pori (Mai i Hydref) fu 58kgDM/ha/dydd ar gyfer llaeth a 36kgDM/ha/dydd ar gyfer bîff a/neu ddefaid.



# TYFU PORFA

Mae'r graff isod yn dangos amcangyfrif o nifer y tunelli o ddeunydd sych (tDM/ha) a dyfwyd ar ffermydd llaeth, bîff a/neu ddefaid ar draws yr wyth rhanbarth a fu'n rhan o Brosiect Porfa Cymru.
Rhwng 1 Mawrth a 30 Hydref. Yn ystod y cyfnod yma, fe dyfodd ffermydd llaeth gyfartaledd o 9t/DM/ha. Cyfartaledd ffermydd biff a defaid yn ystod y cyfnod oedd 7tDM/ha.




# CANLYNIADAU

**Cafodd y mesuriadau porfa eu lawr lwytho bob wythnos a'u gwirio i sicrhau cywirdeb, gan ddileu unrhyw anghysondebau.**

Yna, cyfrifwyd cyfartaledd ar gyfer pob rhanbarth ac ar gyfer y wlad, wedi'u rhannu'n ffermydd bîff a/neu ddefaid a ffermydd llaeth.

Rhoddwyd y wybodaeth ar fap a darparwyd nodiadau rheoli gan ymgynghorwyr pori ynghyd â ffermwyr profiadol o fewn y grŵp.

Cafodd y wybodaeth ei rhannu ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cyswllt Ffermio.



Sganiwch y cod i weld yr holl ganlyniadau

# GRAFFIAU RHANBARTHOL

Mae'r graffiau'n dangos y cyfraddau twf glaswellt cyfartalog (kgDM/ha) ym mhob rhanbarth ar gyfer ffermydd llaeth a/neu ffermydd bîff a defaid.

Ceir nifer o ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau twf glaswellt ar draws gwahanol ranbarthau gan gynnwys y tywydd a lleoliad y tir, math o bridd a ffrwythlondeb, penderfyniadau rheoli pori ac amrywiaeth glaswellt.

Trwy wybod y cyfraddau twf porfa wythnosol a'r duedd yn eich rhanbarth, gallwch wneud penderfyniadau rheoli pori rhagweithiol sy'n cynyddu cynhyrchiant ac yn lleihau costau.







Rhanbarth 3
Cyfraddau twf porfa llaeth yn erbyn bîff a defaid
Cyfraddau twf porfa (kgDM/ha/dydd)
120
100
80
60
40
20
0
25/02/2021
11/03/2021
25/03/2021
08/04/2021
22/04/2021
06/05/2021
20/05/2021
03/06/2021
17/06/2021
01/07/2021
15/07/2021
29/07/2021
12/08/2021
26/08/2021
09/09/2021
23/09/2021
07/10/2021
Twf Porfa Llaeth (kg DM/ha)
Twf Porfa Bîff a Defaid (kg DM/ha)


Rhanbarth 4
Cyfraddau twf porfa llaeth yn erbyn bîff a defaid
Cyfraddau twf porfa (kgDM/ha/dydd)
120
100
80
60
40
20
0
25/02/2021
11/03/2021
25/03/2021
08/04/2021
22/04/2021
06/05/2021
20/05/2021
03/06/2021
17/06/2021
01/07/2021
15/07/2021
29/07/2021
12/08/2021
26/08/2021
09/09/2021
23/09/2021
07/10/2021
Twf Porfa Llaeth (kg DM/ha)
Twf Porfa Bîff a Defaid (kg DM/ha)



Rhanbarth 5
Cyfraddau twf porfa llaeth yn erbyn bîff a defaid
Cyfraddau twf porfa (kgDM/ha/dydd)
0
20
40
60
80
100
120
25/02/2021
11/03/2021
25/03/2021
08/04/2021
22/04/2021
06/05/2021
20/05/2021
03/06/2021
17/06/2021
01/07/2021
15/07/2021
29/07/2021
12/08/2021
26/08/2021
09/09/2021
23/09/2021
07/10/2021
Twf Porfa Llaeth (kg DM/ha)
Twf Porfa Bîff a Defaid (kg DM/ha)




Rhanbarth 6
Cyfraddau twf porfa llaeth yn erbyn bîff a defaid
Cyfraddau twf porfa (kgDM/ha/dydd)
0
20
40
60
80
100
120
25/02/2021
11/03/2021
25/03/2021
08/04/2021
22/04/2021
06/05/2021
20/05/2021
03/06/2021
17/06/2021
01/07/2021
15/07/2021
29/07/2021
12/08/2021
26/08/2021
09/09/2021
23/09/2021
07/10/2021
Twf Porfa Llaeth (kg DM/ha)
Twf Porfa Bîff a Defaid (kg DM/ha)



Rhanbarth 7
Cyfraddau twf porfa llaeth yn erbyn bîff a defaid
Cyfraddau twf porfa (kgDM/ha/dydd)
120
100
80
60
40
20
0
25/02/2021
11/03/2021
25/03/2021
08/04/2021
22/04/2021
06/05/2021
20/05/2021
03/06/2021
17/06/2021
01/07/2021
15/07/2021
29/07/2021
12/08/2021
26/08/2021
09/09/2021
23/09/2021
07/10/2021
lTwf Porfa Llaeth (kg DM/ha)
Twf Porfa Bîff a Defaid (kg DM/ha)




Rhanbarth 8
Cyfraddau twf porfa llaeth yn erbyn bîff a defaid
Cyfraddau twf porfa (kgDM/ha/dydd)
120
100
80
60
40
20
0
25/02/2021
11/03/2021
25/03/2021
08/04/2021
22/04/2021
06/05/2021
20/05/2021
03/06/2021
17/06/2021
01/07/2021
15/07/2021
29/07/2021
12/08/2021
26/08/2021
09/09/2021
23/09/2021
07/10/2021
Twf Porfa Llaeth (kg DM/ha)
Twf Porfa Bîff a Defaid (kg DM/ha)

# ANSAWDD Y BORFA

Mae un fferm bîff a defaid ac un fferm laeth o bob rhanbarth (cyfanswm o 16) wedi bod yn casglu samplau o borfa ffres bob mis ar gyfer dadansoddiad NIR (Isgoch agos).
Mae hyn wedi darparu'r data canlynol:

- Egni (MJME)
- Protein (%)
- Deunydd Sych (%)

Mae'r graffiau isod yn dangos sut mae ansawdd y borfa wedi amrywio trwy gydol y flwyddyn ar ffermydd llaeth a bîff a/neu ddefaid. Ar y ffermydd a oedd yn samplu, nid yw'r samplau ansawdd tir pori cyfartalog wedi gostwng o dan 11 MEMJ neu 20% o brotein. Mae hyn wedi rhoi'r hyder i lawer o ffermwyr waredu'r angen i ddefnyddio dwysfwyd, hyd yn oed ar adegau allweddol o gylchred cynhyrchu da byw.




Ansawdd porfa ar gyfartaledd ar gyfer bîff, defaid a llaeth.

| | Egni MJME (%) | Protein (%) | Deunydd Sych (%) |
|---|---|---|---|
| **Llaeth** | 12.0 | 22.9 | 18.8 |
| **Bîff a defaid** | 12.0 | 21.7 | 19.9 |



08456 000 813
www.llyw.cymru/cyswlltffermio